

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol
Llywodraeth Cymru ar gyfer
2015-16

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol
Llywodraeth Cymru ar gyfer
2015-16

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd ar gyfer goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Jocelyn Davies (Cadeirydd)

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Peter Black

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Christine Chapman

Llafur Cymru
Cwm Cynon



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Alun Ffred Jones

Plaid Cymru
Arfon



Ann Jones

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Nick Ramsay

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Roedd yr Aelod a ganlyn yn bresennol fel dirprwy aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



Jenny Rathbone

Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Cynnwys

Casgliadau'r Pwyllgor	5
1. Trosolwg	6
2. Ystyried Ail Gyllideb Atodol 2015-16.....	9
Y Rhaglen Lywodraethu (Blaenoriaethu).....	9
Safbwynt y Pwyllgor.....	9
Y GIG ac Ariannu Gofal Cymdeithasol (Blaenoriaethu a Fforddiadwyedd).....	10
Cam-drin Domestig (Fforddiadwyedd).....	11
Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Fforddiadwyedd a Blaenoriaethu)	11
Grant Ffioedd Dysgu (Proses y Gyllideb).....	12
Newidiadau portffolio eraill (Blaenoriaethu a Fforddiadwyedd)....	12
Dyraniadau cyfalaf a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (Blaenoriaethu a Gwerth am Arian)	13
Buddsoddi i arbed (Blaenoriaethu a Gwerth am Arian)	13
3. Cyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	14
Tystion	15

Casgliadau'r Pwyllgor

Casgliad 1. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y gyllideb atodol yn fecanwaith i ymdrin â phwysau ac anghenion yn y flwyddyn, roedd yn siomedig bod yna nifer o ymrwymadau o hyd yn y Rhaglen Lywodraethu nad oedd wedi'u cyflawni ac nad oedd unrhyw addasiadau yn y gyllideb atodol derfynol hon yn y Cynulliad hwn er mwyn gwneud hynny. (Tudalen 10)

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y gwasanaethau iechyd, ond roedd yn bryderus na ddylai cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG gael ei ddefnyddio i ariannu aneffeithlonrwydd neu orwario heb ei gynllunio. (Tudalen 11)

Casgliad 3. Roedd gan y Pwyllgor bryderon yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2016-17 nad oedd darpariaeth ar gyfer llochesi a gwasanaethau arbenigol ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cyflawni ledled Cymru. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dyraniad cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymdrin â Cham-drin Domestig o fewn prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol. (Tudalen 11)

Casgliad 4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y gyllideb atodol a luniwyd gan yr Ombwdsmon. (Tudalen 14)

1. Trosolwg

1. Gosododd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid (y Gweinidog) gynnig ail gyllideb atodol 2015-16¹ ar 9 Chwefror 2016. Yn ogystal, cyflwynwyd nodyn esboniadol² a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG). Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015.
2. Ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar 24 Chwefror 2016.
3. Y prif ddyraniadau refeniw yn y gyllideb hon yw cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG, gan gynnwys £45 miliwn i wella gwasanaethau'r GIG, £45 miliwn i helpu gyda phwysau'r gaeaf, £13.8 miliwn i ariannu cyffuriau newydd ar gyfer triniaeth ac £1.75 miliwn ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru. Hefyd, ceir £11.3 miliwn ychwanegol i ariannu'r galw cynyddol am grant dysgu Llywodraeth Cymru.
4. Y prif ddyraniadau cyfalaf yw £63 miliwn o gyllid trafodion ariannol i gefnogi busnesau ledled Cymru, gan gynnwys: £15 miliwn ar gyfer y Gronfa Newydd, Cronfa Fusnes Cymru; £10 miliwn ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Interim mewn Menter Technoleg; £7.7 miliwn i gefnogi buddsoddiadau strategol mewn busnesau; a £5 miliwn ar gyfer y Gronfa Twf Busnesau Bach a Chanolig. Ceir hefyd £23 miliwn i'w dyrannu i brosiectau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i gefnogi'r gwaith o ailadeiladu ac adnewyddu ysgolion ac £20 miliwn i adeiladu 230 o gartrefi fforddiadwy drwy'r Grant Tai Cymdeithasol.
5. Ariennir y buddsoddiadau hyn trwy gymysgedd o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn a chronfeydd a gariwyd drosodd o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf ac maent hefyd yn ystyried newidiadau yn y cyllid gan Lywodraeth y DU. Mae'r gostyngiadau o £46 miliwn sy'n deillio o Gyllideb y DU ar gyfer haf 2015 wedi eu cynnwys yn y gyllideb hon, ynghyd â £32 miliwn o gyllid ychwanegol yn sgil penderfyniadau dilynol gan Lywodraeth y DU.

¹ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2015-16 - Cynnig](#), 9 Chwefror 2016


² Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2015-16 - Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2016

6. Dengys Ffigur 1 y prif ffigurau o'r gyllideb atodol hon, gan ddangos symudiad arian o'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16.

7. Dim ond â newidiadau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol y mae'r ffigurau yn y papur hwn yn gysylltiedig, ac felly fe'u dangosir ar ffurf arian parod; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant. Mae'r gyllideb atodol hon yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol (2015-16), ac felly nid yw'n cynnwys unrhyw un o'r ymrwymadau gwariant a gyhoeddwyd ar gyfer 2016-17 yn ystod y ddadl ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.³








³ Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion 9 Chwefror 2016](#)

Prif ffigurau'r Ail Gyllideb Atodol (SSB), yn dangos symudiadau ariannol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf (FSB) 2015-16



Cyfanswm y Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)

£14,843m ↑ +£342m
+2.4%

	Cyfanswm y dyraniad DEL	Newid FSB i SSB
 Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£6,824m	+£118m +1.8% ↑
 Llywodraeth Leol	£3,453m	£0m 0.0% →
 Addysg a Sgiliau	£1,798m	+£35m +2.0% ↑
 Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	£1,267m	+£152m +13.7% ↑
 Cymunedau a Threchu Tlodi	£767m	+£30m +4.0% ↑
 Adnoddau Naturiol	£418m	+£14m +3.5% ↑
 Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£316m	-£7m -2.2% ↓

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Mae'r union ffigurau yn Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16
TME: Cyfanswm y Gwariant a Reolir | AME: Gwariant a Reolir yn Flynyddol | FSB: Y Gyllideb Atodol Gyntaf | SSB: Yr Ail Gyllideb Atodol.
DEL yw'r rhan ddisgresiynol y gyllideb y caiff Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario; nid oes disgrisiwn yn achos yr AME..

Ffigur 1⁴

⁴ Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2015-16

2. Ystyried Ail Gyllideb Atodol 2015-16

8. Yn ystod y sesiwn graffu, ystyriodd y Pwyllgor nifer o feysydd polisi pwysig a oedd wedi bod yn ddarostyngedig i ddyraniadau ychwanegol neu drosglwyddiadau yn y gyllideb atodol hon. Roedd y cwestiynau hyn yn seiliedig ar y themâu allweddol, sef blaenoriaethu, fforddiadwyedd, proses y gyllideb, a gwerth am arian.

Y Rhaglen Lywodraethu (Blaenoriaethu)

9. Yn ystod gwaith y Pwyllgor o graffu ar gyllideb atodol gyntaf 2015-16, nododd fod y Llywodraeth wedi cyflawni, neu ei bod ar y trywydd iawn i gyflawni, dros 95% o'r Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu na fyddai rhai elfennau o'r rhaglen yn cael eu cyflawni.

10. Penderfynodd y Pwyllgor ddychwelyd at y gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu wrth ystyried yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2015-16.

11. Pan holodd y Pwyllgor y Gweinidog sut y byddai'r dyraniadau o fewn y gyllideb atodol yn helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu nad oedd wedi'u cyflawni, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“last June, when the First Minister reported on the programme for government in his annual report, he reported that we'd met 95 per cent of our programme for government commitments. Clearly, we have delivered, and in-year management of budget enables us to move forward in terms of any further way in which we can reach the programme for government.”⁵

Safbwynt y Pwyllgor

12. Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynigion yn y gyllideb ddrafft.

13. Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar yr anhawster o ran amseru materion mewn perthynas â'r ail gyllideb atodol. Roedd y gwaith craffu ar y gyllideb atodol hon yn anoddach gan fod y Pwyllgor yn ymwybodol o gyllideb ddrafft 2016-17 gan nad yw'r penderfyniadau a wneir ar

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion 24 Chwefror 2016](#), paragraff 146

gyfer cyllideb yn y dyfodol bob amser yn cyfateb â'r penderfyniadau a wneir yn y gyllideb atodol. Er enghraifft, roedd y Pwyllgor yn pryderu, wrth edrych ymlaen, na ystyriwyd llawer y risgiau ynghlwm â mynd yn erbyn cyngor Swyddfa Archwilio Cymru a'r newid mewn cyfeiriad ynghylch ffioedd dysgu gan fod y trosglwyddo wedi'i wneud yn y gyllideb atodol hon i dalu am grant ffioedd dysgu.

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y gyllideb atodol yn fecanwaith i ymdrin â phwysau ac anghenion yn y flwyddyn, roedd yn siomedig bod yna ymrwymadau o hyd yn y Rhaglen Lywodraethu nad oedd wedi'u cyflawni ac nad oedd unrhyw addasiadau yn y gyllideb atodol derfynol hon yn y Cynulliad hwn er mwyn gwneud hynny.

Y GIG ac Ariannu Gofal Cymdeithasol (Blaenoriaethu a Fforddiadwyedd)

14. Y prif ddyraniadau refeniw yn y gyllideb atodol yw cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG, gan gynnwys:

- £45 miliwn i wella gwasanaethau'r GIG;
- £45 miliwn i fynd i'r afael â phwysau'r gaeaf;
- £13.8 miliwn i ariannu cyffuriau newydd ar gyfer triniaeth; a
- £1.75 miliwn ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru.

15. Fodd bynnag, mae'r dyraniad cyfalaf cyffredinol sydd ar gael i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gostwng £8.8 miliwn. O hyn, mae £9.6 miliwn wedi cael ei drosglwyddo i refeniw o ganlyniad i lithriadau yn y rhaglen i brosiectau cyfalaf. Mae'r gwahaniaeth o £0.8 miliwn o ganlyniad i drosglwyddo mewnol yn sgil dyraniad Buddsoddi i Arbed.

16. Mae'r ddogfen naratif a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb atodol yn nodi barn Llywodraeth Cymru bod y dyraniadau hyn yn cyfrannu at GIG cynaliadwy yng Nghymru yn seiliedig ar y diwygiadau a amlinellwyd yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield, *A decade of austerity in Wales?*⁶

17. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y cyllid ychwanegol o £45 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Medi yn cynnwys £13.8 miliwn o gyllid ar gyfer triniaethau newydd, sydd yn arian rheolaidd. Roedd y

⁶ Ymddiriedolaeth Nuffield, [A decade of austerity in Wales?](#), Mehefin 2014

£45 miliwn i fynd i'r afael â phwysau'r gaeaf yn addasiad nad yw'n arian rheolaidd. Rhoddodd y Gweinidog enghraifft o gynnydd mewn nifer o ymweliadau â gwasanaethau gofal brys yng Nghymru ym mis Ionawr. Y Gweinidog Iechyd fydd yn penderfynu sut caiff yr arian hwn ei ddyrannu, a hynny yn seiliedig ar anghenion a phwysau.

18. Mae'r gyllideb atodol yn rhoi manylion am nifer o drosglwyddiadau o fewn gwahanol feysydd y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys gostyngiadau mewn cyllid ar gyfer mentrau iechyd ataliol penodol ac i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn a throsglwyddiadau o fewn rhaglenni gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor na fyddai llawer o effaith negyddol, os o gwbl, yn sgil trosglwyddiadau hyn a bod angen cael hyblygrwydd i reoli risg a chyflawni ymrwymadau.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y gwasanaethau iechyd, ond roedd yn bryderus na ddylai cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG gael ei ddefnyddio i ariannu aneffeithlonrwydd neu orwario heb ei gynllunio.

Cam-drin Domestig (Fforddiadwyedd)

19. Roedd y gyllideb atodol yn cynnwys cynnydd o £273,000 (bron i 30%) tuag at ymdrin â Cham-drin Domestig o fewn prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol, i leddfu'r pwysau ar y gyllideb.

Roedd gan y Pwyllgor bryderon yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2016-17 nad oedd darpariaeth ar gyfer llochesi a gwasanaethau arbenigol ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cyflawni ledled Cymru. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dyraniad cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymdrin â Cham-drin Domestig o fewn prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol.

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Fforddiadwyedd a Blaenoriaethu)

20. Dyrannwyd £11.3 miliwn ychwanegol yn y gyllideb atodol i ariannu'r galw cynyddol am grant dysgu Llywodraeth Cymru. Cyfrannwyd £6.1 miliwn o hyn gan bortffolios gweinidogol eraill a £5.2 miliwn o gronfeydd wrth gefn. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog sut y penderfynir ar y cyfraniadau gan bob portffolio. Cadarnhaodd y Gweinidog fod pob Gweinidog wedi cytuno i gyfrannu a'i fod yn seiliedig ar faint cyllidebau'r portffolios.

Grant Ffioedd Dysgu (Proses y Gyllideb)

21. Cadarnhaodd y Gweinidog i'r Pwyllgor y byddai £5.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Lywodraeth Cymru fel ail ran y cyllid ar gyfer y grant ffioedd dysgu yn 2015-16. Dywedodd y Gweinidog fod y trosglwyddiad hwn yn hanesyddol, a chadarnhaodd na fyddai £21.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo bellach fel elfen olaf y grant ffioedd dysgu o Gyngor Gyllido Addysg Uwch i Lywodraeth Cymru yng nghyllideb derfynol 2016-17. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dwyn ymlaen gyllid o £10 miliwn drwy'r System Cyfnewid Cyllideb i'w ddyrannu yn 2016-17 i addysg uwch ar gyfer darpariaeth ac ymchwil rhan amser.

22. Mynegodd y Pwyllgor bryderon fod y trosglwyddiad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Lywodraeth Cymru yn cynnwys rhan sylweddol o'r ddwy gyllideb atodol ar gyfer 2015-16. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i edrych ar y cysylltiad rhwng y dyraniadau hyn a chyhoeddiadau yn 2015-16 a phenderfyniadau ynghylch argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru fod Llywodraeth Cymru yn drosglwyddo £21 miliwn ar sail asesiad risg yn ymwneud â'r grant ffioedd dysgu. Nid oedd y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan eglurhad y Gweinidog ac mae'n edrych ymlaen at esboniad cliriach yng Nghyllideb Derfynol 2016-17.

Newidiadau portffolio eraill (Blaenoriaethu a Fforddiadwyedd)

23. Roedd y broses o drosglwyddiadau o fewn portffolios yn amlwg mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, roedd y dyraniad refeniw ychwanegol o £8.6 miliwn ar gyfer y system TG Diwygio'r PAC yn y portffolio Adnoddau Naturiol yn cael ei ariannu gan drosglwyddiadau o rywle arall yn y portffolio. Byddai cyllid ar gael yn sgil hyblygrwydd neu ail-broffilio rhaglenni presennol. Ym mhob achos a godwyd gan y Pwyllgor, rhoddodd y Gweinidog farn na fyddai llawer o effaith, os o gwbl, ar unrhyw brosiect.

24. Mae'r Pwyllgor yn deall yr angen am hyblygrwydd yn ystod y flwyddyn ac ailflaenoriaethu, ond yn teimlo nad ydym wedi cael llawer o sicrwydd gan y Gweinidog ynghylch effaith wirioneddol y trosglwyddiadau hyn ar brosiectau eraill, naill ai o ran oedi neu ostyngiadau yng nghwmpas rhaglenni a phrosiectau.

Dyraniadau cyfalaf a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (Blaenoriaethu a Gwerth am Arian)

25. Gwnaed nifer o ddyraniadau yn y gyllideb atodol yn ôl blaenoriaethau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (y cynllun). Y prif ddyraniadau cyfalaf yw £63 miliwn o gyllid trafodion ariannol i gefnogi busnesau ledled Cymru. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch strategaeth blaenoriaethu prosiectau o fewn y cynllun, sut y cyflawnir y targedau a sut mae cymunedau ledled Cymru yn cael budd o'r buddsoddiad.

26. Croesawodd y Pwyllgor yr ymateb gan y Gweinidog fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail achos busnes clir a bod angen gwybod faint o swyddi y mae pob buddsoddiad yn eu creu. Croesawodd y Pwyllgor hefyd sicrwydd y Gweinidog y bydd y cynllun benthycy cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden a pharhau er gwaetha'r trosglwyddiad o £4.5 miliwn o ddarparu rhaglenni chwaraeon ac ymarfer corff i ariannu'r gronfa Busnes Cymru newydd. Y rheswm dros y trosglwyddiad hwn yw'r nifer isel o awdurdodau lleol sy'n manteisio ar y cynllun benthycy.

Buddsoddi i arbed (Blaenoriaethu a Gwerth am Arian)

27. Gwnaeth y gyllideb atodol nifer o ddyraniadau i brosiectau Buddsoddi i Arbed gan gynnwys prosiectau yn y GIG, Cyfoeth Naturiol Cymru a buddsoddiad mewn goleuadau LED ar draffyrdd a chefnffyrdd.

28. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch yr arbedion a wnaed drwy'r cynlluniau hyn, ac yn enwedig sut caiff yr arian a arbedwyd drwy brosiectau iechyd ei ailfuddsoddi i ofal iechyd. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn a fydd ar gael ar-lein ar dudalennau gwe y Pwyllgor.⁷

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb Llywodraeth Cymru 2015-16](#)

3. Cyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

29. Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar 3 Rhagfyr 2015.

30. Roedd y gyllideb atodol yn trafod yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer:

- darpariaethau dadfeiliad sy'n gysylltiedig â'r adeilad ym Mharc Bocam;
- costau gosod cyfalaf ar gyfer lle ychwanegol ym Mharc Bocam.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y gyllideb atodol a luniwyd gan yr Ombwdsmon.

Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad o sesiwn dystiolaeth yn llawn yn www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s49325/24%20February%202016.pdf

Enw	Sefydliad
<i>Dydd Mercher 24 Chwefror 2016</i>	
Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Margaret Davies	Pennaeth Cyflenwi'r Gyllideb
Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol
Matt Denham-Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Ariannol